MOSTYN

SWYDD DDISGRIFIAD

Cynorthwydd Manwerthu Penwythnos

Yn atebol i'r: Rheolydd Manwerthu

Yn gyfrifol am: Profiad adwerthu

Contract: 14 awr yr wythnos [2 diwrnod - dydd Sadwrn a dydd Sul]

Cyflog: £6.45 - £8.72 yr awr

Mae'r cyfraddau yma yn cwrdd â'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Rydym yn edrych am gynorthwydd manwerthu rhan-amser i ymuno â'n tim-blaen-tŷ. Mae gan staff y siop rôl ddeuol gwerthu/cyfarch, sy'n hynod o bwysig am mai nhw yw'r cysylltiad cyntaf gaiff yr ymwelydd wrth ddod i mewn i'r adeilad. Yn cael eu harddangos mewn gofod manwerthu pwrpasol mae detholiad unigryw o dlysau cywrain, gwydr lliwgar, sgarffiau moethus a gwaith serameg hardd wnaed â llaw. Yn cynnwys gwaith gan grefftwyr lleol a chenedlaethol rydym yn ceisio dangos amrediad amryfal ac unigryw gan wneuthurwyr profiadol ynghyd â rhai sy'n egin wneuthurwyr. Hefyd ar werth mae cardiau cyfarch a chardiau post, llyfrau celf a phynciau perthnasol, cylchgronnau celf, papurach sgrifennu a pheth deunydd marchnata. Yn achlysurol bydd arddangosfa fechan o waith gan wneuthurwr penodol yn cael ei arddangos yn unigol. Mae i'r siop newydd ddesg o gryn faint sydd hefyd yn dderbynfa.

Dyletswyddau:

Chwarae rôl allweddol yn sicrhau bod ymwelwyr MOSTYN yn mwynhau eu hymweliad mewn amgylchedd diogel, ac arddel agwedd hyblyg at fynd i'r afael â gwahanol gyfrifoldebau'r swydd.

• Cyflenwi gwasanaeth tu-blaen-tŷ effeithlon gan wneud yn siwr fod y cyhoedd yn cael croeso cynnes a bod unrhyw gwestiynau yn cael eu hateb.

• I gynyddu'r gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'r gofod manwerthu gan ddechrau sgyrsiau ac thrafod y gwaith sydd ar werth gyda chwsmeriaid ac ymwelwyr.

• Cynorthwyo gyda arddangos a gwerthu cyson ac effeithlon rychwant eang o nwyddau crefft a dylunio, llyfrau, cardiau post a chardiau cyfarch, cylchgronnau, gweithiau celf a deunydd marchnata.

• Trefnu casglu a dychwel stoc lle'n briodol (gwerthu neu ddychwelyd) cadw record effeithlon o'r stoc a chynorthwyo gyda chyfri'r stoc pan fydd angen.

• Gofalu fod pob cofnod a gohebiaeth, yn bapur neu'n electroneg, sy'n berthnasol i dderbyn, gwerthu neu ddychwel stoc yn cael ei wneud yn briodol ac yn cael ei gadw mewn trefn.

• Cynorthwyo gyda agweddau ariannol y siop. Cadw cofnod dyddiol o'r trosglwyddiadau. Yn achlysurol, cyfri fyny ar ddiwedd y dydd.

• Cadw'r ddesg yn daclus, gweithredu'r til, diogelwch y siop a system IT, gan ofyn am gymorth lle bo angen.

• I fod yn gyfrifol am ddiogelwch y nwyddau sy'n cael eu harddangos pan fo ymwelwyr yn bresennol.

• Helpu'r staff gwirfoddol neu achlysurol mewn cytundeb gyda'r Cyfarwyddwr, y Pennaeth Busness a Gweinyddu a'r Rheolydd Manwerthu.

• Cynorthwyo'r Rheolwr Manwerthu, y Rheolwr Gweithrediadau a Chyfleusterau a staff cadw tŷ gydag unrhyw dasgau technegol neu lanhau eu hangen mewn perthynas â'r siop / derbynfa.

• Pan yn angenrheidiol, cynorthwyo yn yr oriel.

• Gwneud unrhyw dasgau rhesymol eraill i sicrhau fod y siop yn gweithredu'n llwyddiannus.

Fel gyda phob aelod arall o staff, bydd disgwyl i chi wneud y canlynol:-

Bod yn gyfrifol am eich iechyd a diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch eich cydweithwyr. - Sicrhau diogelwch yr oriel a'r mannau eraill ym MOSTYN. -

Hyrwyddo gweithgareddau a gweledigaeth MOSTYN. -

Cydweithio â'r holl adrannau eraill. -

Sicrhau eich bod yn cadw at systemau, polisïau a phrosesau MOSTYN ymhob agwedd o'ch gwaith. Nid yw'r rhestr yma yn rhestr lawn o ddyletswyddau. Efallai bydd gofyn i chi ymgymryd â dyletswyddau rhesymol eraill i wneud y swydd yn dda a chyrraedd nodau'r mudiad.

Manyleb person:

Gwybodaeth:

Dealltwriaeth o waith celf, crefft a dylunio gweledol cyfoes a thystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y sector yma. Awch am ddod â materion cyfoes yn fyw drwy gelf, crefft a dyluniadau a chyfleu manteision, cyfleoedd a her celfyddyd gyfoes i gynulleidfa mor eang â phosib.

Sgiliau:

● Mae profiad o adwerthu yn hanfodol ar gyfer y swydd hon

● Sylw i fanylion a etheg gwasanaeth cwsmeriaid cryf a fydd yn cael ymwelwyr dod yn ôl dro ar ôl tro.

● Y gallu i fod yn hyderus, yn glên ac yn groyw eich mynegiant er mwyn ysbrydoli ymwelwyr a'u cynorthwyo i ddeall y gweithiau sydd ar ddangos ynghyd â gweledigaeth a nodau Mostyn.

● Y gallu i ddefnyddio Mircosoft Word ac Excel yn hyderus

● Y gallu i weithio'n hyblyg.

● Tystiolaeth o weithio gydag ystod eang o gynulleidfaoedd ac mae'r cymhelliant i ymdrechu i wneud argraff dda.

Nid yw gallu'r siarad Cymraeg ar gyfer y swydd hon yn hanfodol, ond byddai'n cael ei weld fel ased.

Oriau:

Diwrnodau pendant

Dydd Sadwrn 10.00yb – 5.30yp

Dydd Sul 10.00yb – 5.30yp

Mae gweitho ar benwythnosau yn rhan anatod o'r swydd.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus hefyd fod ar gael i weithio tra mae aelodau eraill o'r staff ar wylie.

Sut i ymgeisio:

Ebostiwch eich CV ynghyd â llythyr eglurhaol at Barry Morris, Rheolydd Manwerthu: barry@mostyn.org

(Ceisiadau drwy'r post drwy drefniant ymalen llaw yn unig).

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 5.30yp Ddydd Gwener 2il Hydref 2020

Dyddiad y cyfweliad: Dydd Llun 5ed Hydref – 6ed Hydref 2020

Dyddiad cychwyn - Diwedd mis Hydref / dechrau Tachwedd 2020